Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Dderi

**Llangybi**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 8LY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Y Dderi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Dderi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 116 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 93 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 15 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 11.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 21.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 29.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2010 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 18/05/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Y Dderi yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol. Mae’r pennaeth brwdfrydig a’r staff ymroddedig yn gweithio’n hynod effeithiol er mwyn creu hafan ddiogel ac amgylchedd dysgu cynhwysol i’r disgyblion.

Mae effaith yr arweinyddiaeth gadarn yn weledol ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl staff berthynas glòs a chynnes â’r disgyblion. Maent yn trin y disgyblion gyda charedigrwydd a pharch ac yn darparu profiadau ysgogol a diddorol sydd yn ennyn diddordeb bron bob disgybl. Maent yn cydweithio’n arbennig i gefnogi anghenion lles, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion ac i gynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau ysgogol ar draws bob un o’r meysydd dysgu a phrofiad. Ar draws yr ysgol, mae’r awyrgylch bositif o fewn dosbarthiadau yn annog cymunedau dysgu effeithiol a phwrpasol. Er bod athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu yn eu dosbarthiadau, nid yw’r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu. Yn ogystal, nid yw athrawon bob tro’n darparu adborth digon miniog i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gadarn, ac maent yn hyderus i ddefnyddio technoleg i gefnogi eu dysgu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Nodwedd gref yw eu defnydd o’r iaith Gymraeg, gyda’r rhan fwyaf yn defnyddio’u medrau’n hyderus mewn cyd-destunau gwahanol. Mae’r rhan fwyaf yn adeiladu’n gynyddol ar eu medrau ysgrifennu gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa gyfoethog yn eu gwaith a chyflawni safonau da ar draws yr ysgol.

Mae’r ysgol wedi ymateb yn greadigol ac yn flaengar i ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae blaengaredd y dysgu yn yr awyr agored yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso’u medrau mewn modd ymarferol a chreadigol. Mae’r disgyblion yn  frwdfrydig dros ben ac yn dyfalbarhau'n arbennig o dda yn ystod y gweithgareddau hyn. Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei sefydlu’n gadarn yn eu cynefin gwledig, nid nepell o Lanbedr Pont Steffan. Mae’r disgyblion yn dysgu am arwyr, hanes, chwedlau a diwylliant yr ardal, ac mae hyn yn cyfoethogi eu dysgu’n arbennig.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn dysgu

A2 Cryfhau adborth athrawon a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i wella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas ag effeithiolrwydd yr ysgol o'u defnydd o adnoddau naturiol sy'n ehangu dysgu a gwerthoedd disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion y medrau sy'n ddisgwyliedig am eu hoed a'u gallu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Maent yn adalw gwybodaeth i gof yn fedrus, yn dwysáu dealltwriaeth ac yn ymgolli'n llwyr yn eu dysgu. Mae bron bob disgybl yn dangos balchder gwirioneddol tuag at eu gwaith ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn gwrando'n arbennig o dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Wrth symud drwy'r ysgol, maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig ac mae eu medrau llafar yn datblygu'n gadarn. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau datblygu geirfa syml yn gyflym. Maent yn ehangu eu geirfa yn briodol i sgwrsio am eu profiadau gan ddefnyddio tafodiaith leol yn naturiol, er enghraifft wrth ddisgrifio nodweddion y tywydd a thyfiant planhigion yn ystod y Gwanwyn. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio geirfa bwrpasol, er enghraifft wrth drafod sut i edrych ar ôl eu hunain i gadw'n iach. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth leisio safbwyntiau gwahanol ynglŷn â phwysigrwydd cwsg i'w cyrff.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar straeon a'u hailddarllen i'w ffrindiau ac oedolion. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen a chasglu ffeithiau diddorol gan eu cyflwyno mewn taflen wybodaeth am awduron enwog Sir Ceredigion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol, gan wneud hynny yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu lleisiau ac yn defnyddio atalnodi'n fwriadus i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn llithr ddarllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, wrth ymchwilio i hanes Betty Campbell, maent yn dyfnhau eu dealltwriaeth o gyfraniadau rhagorol y mae pobl dduon wedi'u gwneud.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau er mwyn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau gan gynnwys ffurfiau creadigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus gan ddechrau amrywio geirfa a phatrymau brawddeg wrth ysgrifennu, er enghraifft wrth ddwyn i gof stori Llyn y Fan Fach. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Maent yn datblygu eu gwybodaeth berthnasol am y defnydd cywir o'r Gymraeg wrth ddilyn strwythur cyson mewn gweithgareddau rheolaidd. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr ffurfiol i fynegi barn am foddi Cwm Tryweryn.

O oedran cynnar, mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn gallu cyfrif hyd at 10 yn llwyddiannus Maent yn adnabod rhifau hyd at 20 ac yn defnyddio’r wybodaeth yn hyderus i adio a thynnu rhifau gwahanol, er enghraifft wrth chwarae gemau syml. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn adnabod siapiau gwahanol yn gywir ac yn defnyddio eu dealltwriaeth yn effeithiol i ddarllen cliwiau a datrys problemau mewn gweithgareddau ysgogol yn yr ardal allanol. Mae hyn yn annog y disgyblion i fwynhau mathemateg o oed cynnar. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i wneud cynnydd cryf. Maent yn dwysáu eu dealltwriaeth o’r pedair rheol fathemategol ac yn defnyddio fformiwla yn hyderus i ddarganfod cylchedd gwrthrychau amrywiol yn yr ardal allanol.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i gynhyrchu gwaith celf drawiadol. Maent yn efelychu gwaith artistiaid yn fedrus ac yn amrywio’r tôn a lliw yn ofalus, er enghraifft wrth gyfleu’r môr a’r awyr. Caiff cynnyrch creadigol disgyblion ei arddangos yn chwaethus o fewn yr amgylchedd dysgu lliwgar sy’n meithrin eu balchder at eu gwaith.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol yn dda drwy'r ysgol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi sy’n hybu eu hiechyd a'u lles, fel cymryd rhan mewn sesiynau meddylgarwch a ffitrwydd.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Maent yn cyfuno eu dealltwriaeth o wahanol raglenni ac apiau cyfrifiadurol yn gynyddol hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Yn y dosbarthiadau ieuengaf, maent yn trîn a thrafod offer yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio llechen ddigidol i gofnodi eu gwaith ac i ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn creu graffiau syml o liwiau llygaid aelodau’r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio ystod o feddalwedd i gyflwyno gwaith ar draws y meysydd dysgu yn gelfydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni’n llwyddiannus i gofnodi elw yn dilyn arwerthiant cynnyrch o’r stondin drachtiau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo’n hapus ac yn ddiogel o dan ofal holl staff yr ysgol. Maent yn teimlo eu bod nhw’n cael eu parchu a’u trin â thegwch ac mae hyn yn cyfrannu’n hynod gadarnhaol at ethos teuluol, cartrefol a chynhwysol yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gefnogaeth os oes rhywbeth yn eu pryderu ac maent yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda mewn gwersi, yn ystod amser hamdden ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn ofalgar o’i gilydd ac yn dangos balchder at eu hardal leol a’u hysgol. Maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a’u treftadaeth.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn frwdfrydig wrth ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, ar draws yr ysgol, maent yn fentrus wrth arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau a deunyddiau i gynhyrchu gwaith celf o safon uchel, ac wedi ennill gwobrau cenedlaethol wrth greu lluniau 2D a chreu modelau serameg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn a chynnig syniadau am gynnwys eu gwersi. Er enghraifft, trwy lunio mapiau meddwl ar ddechrau thema dymhorol, maent yn cyfrannu'n bwrpasol trwy gynnig syniadau a chydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion. O ganlyniad, mae brwdfrydedd a chyfranogiad y disgyblion tuag at eu dysgu yn gadarn iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth gwblhau tasgau, ac yn dangos lefel uchel o falchder yn eu gwaith. Er bod bron bob un yn ymateb yn llwyddiannus wrth ddilyn arweiniad athrawon a chynorthwywyr i gwblhau tasgau, nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd amserol i arwain eu dysgu'u hunain yn hollol annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth o'r angen i gadw'n heini a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i wneud dewisiadau iach yn eu bywyd yn yr ysgol a thu hwnt. Maent yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta byrbrydau iach yn ystod amseroedd chwarae a pham y dylid osgoi diodydd gyda gormod o siwgr.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'u hawliau yn datblygu'n gadarn ac maent yn ymwybodol o'r hawl i fod yn ddiogel. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth dda o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, mae'r Dewiniaid Digidol wedi creu rhestr o reolau ar sut i fod yn ddiogel ar-lein, ac mae hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweddill y disgyblion.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth hynod ddeallus o bwysigrwydd cylchredau a phrosesau natur. Maent yn esbonio manteision byw'n  gynaliadwy a'r effaith fuddiol  mae hyn yn ei chael ar eu lles. Er enghraifft, maent yn ymfalchïo eu bod yn tyfu llysiau yn yr ardal arddio, ac yn eu bwyta a'u gwerthu i'r gymuned leol. Mae'r rhan fwyaf yn meithrin gwell dealltwriaeth o'r modd y gall gwerthoedd ecolegol priodol lywio ac ysbrydoli'r ffordd y maent yn dysgu byw. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan â balchder gwirioneddol mewn sesiynau addysg gorfforol gan gynnwys rygbi, traws gwlad a gweithgareddau lles. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol trwy eu gwaith wrth godi ymwybyddiaeth a gweithredu'n ystyriol I helpu eraill yn y gymuned leol. Er enghraifft, wrth gynnal gŵyl "Glastondderi" yn yr haf i gymuned yr ysgol, mae bron bob disgybl yn cael  cyfle i berfformio ar lwyfan a gwerthu cynnyrch o ardd yr ysgol. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymhwyso eu medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol mewn dull dychmygus ac arloesol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang a chytbwys o weithgareddau ysgogol ar draws bob maes dysgu a phrofiad. Mae athrawon yn cydweithio'n dda â disgyblion, rhieni a chymuned yr ysgol i gynllunio a darparu profiadau difyr sy'n ysbrydoli a sicrhau ymroddiad bob disgybl.

Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae bron bob aelod o staff yn arddel disgwyliadau uchel ar gyfer safonau'r disgyblion ac yn dangos brwdfrydedd at yr iaith. Maent yn modelu iaith yn feistrolgar, sy'n galluogi'r

rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth gaffael yr iaith, a’i defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys.

Mae gan bob aelod o staff berthynas waith hynod gadarnhaol â disgyblion. Maent yn cydweithio’n glòs fel aelodau effeithiol o dîm wrth gynllunio gweithgareddau dysgu o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, mae’r athrawon wedi diwygio’r cynlluniau gwaith wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru i gynnig cyfleoedd dychmygus i ddisgyblion ddatblygu ystod o brofiadau dysgu o fewn cyd-destunau dilys. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gymhelliant ac ymrwymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae athrawon a chynorthwywyr y disgyblion ieuengaf yn sicrhau bod profiadau dysgu creadigol ac ymarferol yn cael eu hymgorffori’n fedrus yn yr ardaloedd dysgu o fewn y dosbarth ac yn yr ardaloedd tu allan. Mae’r ardaloedd dysgu atyniadol yn y dosbarthiadau tu mewn a thu allan yn cael eu defnyddio’n fwriadus i annog disgyblion i weithio’n gynhyrchiol a chyfoethogi’u profiadau, er enghraifft wrth brynu nwyddau yn y siop, trwsio ceir yn y garej chwarae rôl a chyfansoddi yn y gornel gerddoriaeth.

Ar frig yr ysgol, mae staff yn darparu ystod eang o weithgareddau sy’n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau allweddol a’u medrau cymdeithasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio eu medrau llythrennedd a’u medrau rhifedd i gasglu cynhwysion o’r goedlan ar dir yr ysgol i greu cynnyrch fel sebonau ac eli haul er mwyn eu gwerthu’n gyhoeddus. Mae hyn yn cyfrannu’n hynod lwyddiannus tuag at ddatblygu’r disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus ac uchelgeisiol.

Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion awgrymu’r cyfeiriad nesaf yr hoffent ei ddilyn wrth weithio ar wahanol themâu eang a diddorol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae staff yn gorarwain, sydd yn ei dro’n llesteirio gallu disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu. Yn gyffredinol, nid yw’r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion yn ddigon effeithiol i wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn dysgu.

Mae’r athrawon yn datblygu eu hymagwedd tuag at asesu trwy fabwysiadu dull mwy effeithiol o olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn canolbwyntio’n dda ar fedrau sylfaenol ac ymdrech y disgybl ac wedi’i seilio ar feini prawf cytûn. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o gyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol wrth gynllunio’r camau nesaf ar gyfer dysgu disgyblion. Mae athrawon yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd a lles eu plant, sy’n eu helpu i ddeall sut gallent eu cynorthwyo gartref.

Mae gan y staff berthynas waith buddiol a chlòs â’r disgyblion. Mae hyn yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn annog eu cyfranogiad a chanmol eu hymdrechion tra byddant yn gweithio a rhyngweithio â’u cymheiriaid yn gyson. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ymgysylltu â’u dysgu am gyfnodau estynedig. O fewn eu sesiynau dysgu, mae athrawon yn rhannu’r meini prawf llwyddiant â disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro’n darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau ar ôl derbyn adborth. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn ymestyn eu gwaith hyd eithaf eu gallu bob tro.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r holl staff yn cyfrannu’n llwyddiannus i ddatblygu ethos hapus, gofalgar a diogel yn yr ysgol. Maent yn meithrin gwerthoedd cytûn fel gofal, caredigrwydd, tegwch a pharch yn arbennig o dda. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd cartrefol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn aelodau gwerthfawr o ‘deulu’r ysgol’.

Nodwedd gref o’r ddarpariaeth yw’r ystyriaeth a roddir i iechyd meddwl a lles disgyblion. Trwy ddarparu sesiynau lles emosiynol effeithiol i unigolion a grwpiau bach, mae cynorthwywyr yn cynnig cyfleoedd helaeth iddynt drafod eu hemosiynau. Yn ogystal, ceir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ar draws yr ysgol ddatblygu hyder, cadernid ac empathi sy’n hybu’r disgyblion i fod yn unigolion iach a pharchus.

Mae’r ysgol yn cyflwyno addoli dyddiol ysgol gyfan neu mewn dosbarthiadau sy’n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Ar draws yr ysgol, rhoddir pwyslais addas ar gynhwysiant a datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hawliau dynol. Mae’r ddarpariaeth yn datblygu disgyblion i ddangos gwerthfawrogiad buddiol o gydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder, a’r modd y mae’r cysyniadau hyn yn ymwneud â’u bywydau o ddydd i ddydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth wedi eu teilwra er mwyn ymateb i’w hanghenion a’u targedau personol. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn gwneud defnydd da o’r gefnogaeth sydd ar gael gan asiantaethau allanol ac yn gweithredu’n effeithiol. Mae arweinwyr yr ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â’u targedau personol. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n fwriadus â rhieni am gynnydd eu plant mewn cyfarfodydd a thrwy ddiweddaru dogfennaeth sy’n rhoi’r disgybl yn ganolog. O ganlyniad i fonitro a gwerthuso’r ddarpariaeth yn gyson, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwas yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beryglon fel camddefnyddio’r we. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, gyda’r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau staff rheolaidd. Mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r athrawon yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Er enghraifft, trwy dyfu llysiau yng ngardd yr ysgol a'u coginio i greu bwydydd iach a gweini’r cynnyrch i’w rhieni mewn caffi un nos. Mae disgyblion wedi mwynhau ystod eang o weithgareddau corfforol tu allan i’r ysgol gan ddysgu medrau newydd fel dringo, canŵio, a gweithio fel tîm.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr sy’n cyfrannu at ddatblygu medrau ysbrydol a moesegol disgyblion yn dda iawn, ac yn cynorthwyo disgyblion i uniaethu â phrofiadau plant o ysgolion dros Ewrop. Er enghraifft, mae’r cysylltiadau ag ysgol yn Wcráin wedi darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar negeseuon pwysig, fel goddefgarwch a helpu pobl eraill, a’u cysylltu â’u profiadau eu hunain.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir a chadarn ar gyfer yr ysgol ac yn arwain yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae ganddi weledigaeth nodedig, sef “ O’r Fesen Fach”, sydd wedi ei rhannu’n llwyddiannus â chymuned yr ysgol. Mae'r bartneriaeth glòs hon yn hyrwyddo bron bob disgybl i fod yn unigolion iach a hyderus mewn cymuned groesawgar, ddiogel a hapus. Cyfranna hyn i’r ffaith fod disgyblion yn ymfalchïo mewn perthyn i'r ysgol ac yn arddangos agweddau hynod gadarn tuag eu dysgu.

Mae gan staff berthynas rhagweithiol dda â’r rhieni sy’n eu hannog i fod yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol. Mae’r pennaeth yn rhannu gwybodaeth fuddiol ac amserol â rhieni sydd yn sicrhau eu dealltwriaeth o holl weithgareddau’r ysgol. Mae’r staff yn manteisio ar arbenigedd rhieni a’r gymuned ehangach yn effeithiol tu hwnt drwy gynllunio a chyflwyno ystod eang o brofiadau ar ddiwrnodau penodol sy’n ehangu eu doniau a’u profiadau gyda’r disgyblion. Er enghraifft, wrth drefnu arddangosfa celf mewn galeri leol, mae disgyblion yn defnyddio’u medrau creadigol a mynegiannol yn grefftus.

Mae trefniadau gwarantu ansawdd a phrosesau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol iawn ac yn cynnwys pob aelod o staff. Maent yn ystyried cyfraniadau staff a llywodraethwyr ynghyd â thystiolaeth uniongyrchol wrth werthuso perfformiad yr ysgol. Defnyddir y wybodaeth o’r gweithgareddau monitro yn effeithiol i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, mae’r blaenoriaethau i godi safonau grwpiau penodol yn canolbwyntio’n gadarn ar gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth fuddiol o drefniadau dyddiol yr ysgol. Maent yn manteisio ar ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau’r ysgol, sydd o fudd i greu gwelliannau. Er enghraifft, maent yn trafod gwaith disgyblion ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i fesur ei ansawdd ochr yn ochr ag athrawon. Mae’r corff llywodraethol hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy’n amlygu bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o gyllid, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, sydd yn cael effaith gadarn ar wella medrau disgyblion. Er enghraifft, maent wedi dyrannu cyllid i ddatblygu a gwella’r amgylchedd ddysgu’n barhaus, gan fuddsoddi i greu ardaloedd dychmygus. Mae hyn yn datblygu medrau’r disgyblion mewn amgylchedd greadigol ac mewn ethos sy’n cefnogi eu lles emosiynol. Mae’r ardaloedd yn caniatáu staff i wneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r safle fel y goedlan a’r ardaloedd plannu. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol ac yn dyrannu adnoddau'n effeithiol i ddarparu ymyraethau penodol ar draws yr ysgol. Drwy hyn, mae’r cynorthwywyr yn darparu cefnogaeth fuddiol i symud disgyblion ymlaen â'u dysgu a’u cefnogi’n emosiynol.

Mae’r pennaeth yn cynnal ethos a diwylliant cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae bob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant a chyrsiau sy’n cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau strategol yr ysgol a’u hanghenion unigol. Maent yn cymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â

gweithwyr proffesiynol eraill ac mae hyn yn datblygu eu gwybodaeth broffesiynol, eu haddysgu a'u medrau arwain. Mae'r diwylliant hwn o ddysgu proffesiynol parhaus yn creu darpariaeth ofalgar, sydd yn ei dro yn arwain at ddisgyblion brwdfrydig, sy'n cyflawni'n dda ac yn datblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/05/2023